Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Glangarnant**

**Glan Garnant**
**Heol y Neuadd**
**Rhydaman**
**SA18 1UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11 Mai 2022 a 12 Mai 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Glangarnant

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Arkash Management Consultants Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 43 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Tachwedd 2021 a 22 Tachwedd 2021 |
| A ydyw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae gan Gartref Gofal Glangarnant reolwr newydd sydd wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol ers cael ei benodi ym mis Ionawr 2022. Mae'r lefelau staffio wedi cynyddu, gan alluogi'r gweithwyr gofal i oruchwylio'r preswylwyr yn agosach a darparu cymorth mwy amserol pan fo angen. Mae'r staff wedi addasu'n dda ac wedi ymrwymo i ffyrdd newydd o weithio. Mae'r bobl yn mwynhau cyswllt rheolaidd â'r gweithwyr gofal, ac yn cymdeithasu ag eraill yn ystod amser bwyd a gweithgareddau grŵp. Mae'r gwasanaeth wedi gwella ei reolaeth o feddyginiaeth yn sylweddol.

Er bod anghenion gofal sylfaenol y bobl yn cael eu diwallu, nid ydynt bob amser yn cael gofal sy'n briodol i'w hanghenion unigol. Nid yw'r gweithwyr gofal yn deall y mesurau sydd ar waith i helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed yn llawn. Mae angen i'r gwasanaeth flaenoriaethu gwella ei broses gynllunio ac adolygu gofal. Mae angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar y staff i'w helpu i ddeall anghenion y bobl yn well, gan gynnwys sut i reoli risgiau parhaus.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel a glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r gwasanaeth wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio camerâu gwyliadwriaeth dros dro o fewn ardaloedd cymunol, gan nad ymgynghorwyd â'r bobl ynghylch eu defnydd ac nid oedd polisi teledu cylch cyfyng y gwasanaeth yn cael ei ddilyn. Mae camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Mae systemau ar waith ar gyfer monitro ansawdd y gwasanaeth, er bod angen i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn fwy effeithiol.


## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n gwella ansawdd bywyd y bobl. Mae manylion dewisiadau gofal y bobl a'u trefn arferol wedi'u nodi yn eu cynlluniau personol. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal, er bod angen i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn dogfennu adolygiadau gofal sy'n ystyried a ydyw cynlluniau personol y bobl yn dal yn briodol. Mae preifatrwydd ac urddas y bobl wedi'u peryglu oherwydd monitro teledu cylch cyfyng o fewn ardaloedd cymunol. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â’r bobl ynghylch y defnydd o deledu cylch cyfyng yn y cartref a dilyn yr egwyddorion a nodir yn ei bolisi teledu cylch cyfyng.

Mae’r bobl yn elwa ar lesiant emosiynol trwy ryngweithio cadarnhaol â'r gweithwyr gofal a’r preswylwyr eraill. Mae'r gwasanaeth yn datblygu ei rhaglen o weithgareddau ac yn gwneud newidiadau i wella profiadau bwyta'r bobl. Mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda gweithwyr iechyd, lle gallant roi'r wybodaeth ddiweddaraf am iechyd a llesiant y bobl a rhannu unrhyw bryderon. Mae'r gwasanaeth yn rheoli meddyginiaethau'r bobl yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth priodol, fel y nodir yn eu cynlluniau personol. Mae angen adolygu cynlluniau personol yn fwy gofalus a'u diweddaru ar ôl unrhyw newid. Mae trosiant diweddar y staff wedi effeithio ar gymysgedd sgiliau cyffredinol y tîm. Nid yw'r gweithwyr gofal yn deall anghenion gofal a chymorth penodol y bobl yn llawn a byddent yn elwa ar hyfforddiant ychwanegol i gynnal eu harferion. Er bod y gweithwyr gofal yn cael cymorth anffurfiol, mae angen i'r rheolwyr sicrhau eu bod hefyd yn cael goruchwyliaeth ffurfiol bob tri mis ac arfarniadau blynyddol.

Mae gan y gwasanaeth systemau ar waith i helpu i amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth. Mae polisi diogelu cyfredol yn esbonio Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn glir. Mae'r gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau gofynnol wrth gyflogi staff newydd. Caiff y lefelau staffio eu hadolygu a'u haddasu yn ôl yr angen. Mae'r gweithwyr gofal yn weladwy ac yn ymatebol i alwadau am gymorth. Maent wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n wynebu risg ac maent yn deall sut i adrodd am bryderon. Fodd bynnag, nid oes gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth lawn o'r risgiau penodol sy'n ymwneud â diogelwch y bobl, ac nid yw'r rhain bob amser yn cael eu cyfrif mewn asesiadau risg a chynlluniau personol. Mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn. Mae safonau yn y gwasanaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd, er bod yn rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn agosach er mwyn sicrhau bod y cartref yn rhedeg yn esmwyth.

Mae'r cartref yn ddiogel ac wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon gyffredinol dda. Mae'r bobl yn gallu cyrraedd yr ardaloedd preifat a'r ardaloedd cymunol yn ddiogel. Mae cynllun a gosodiad y lolfeydd-ystafelloedd bwyta wedi'u gwella er mwyn gwella profiadau dyddiol y bobl. Cedwir y cartref a'i gyfleusterau mewn cyflwr da trwy wiriadau iechyd a diogelwch

arferol a gwasanaethu offer. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo safon gyffredinol dda o hylendid a rheoli heintiau.

## Gofal a Chymorth

Mae’r bobl yn elwa ar gynhesrwydd a charedigrwydd gan dîm o staff ymroddedig sy'n gweithio'n galed. Gwelsom y bobl yn cael cyswllt rheolaidd â'r gweithwyr gofal a phreswylwyr eraill wrth iddynt dreulio amser mewn mannau preifat ac mewn ardaloedd cymunol. Mae'r gweithwyr gofal yn gallu gweld pryd y mae angen cymorth ar y bobl ac yn darparu hyn mewn ffordd ystyriol a pharchus. Mae'r rheolwr wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol i wella profiadau dyddiol y bobl, megis cael gwared ar bethau sy'n tynnu sylw a diogelu amser bwyd er mwyn galluogi'r bobl i fwyta mewn amgylchedd digynnwrf a thawelach. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhoi amser i'r bobl ac yn cynnal urddas y bobl wrth eu cynorthwyo gyda'u prydau bwyd. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu gweithgareddau'r cartref a phrynu offer synhwyraidd i gynnal gweithgareddau unigol. Mae cynllun 'Preswylydd y Dydd' hefyd yn cael ei gyflwyno, a fydd yn canolbwyntio ar bob agwedd ar ofal unigolyn ar sail cylchdro.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y bobl, eu cynrychiolwyr a’r gweithwyr proffesiynol yn rheolaidd mewn trafodaethau am iechyd, gofal a llesiant y bobl. Fodd bynnag, mae angen gweithredu system ar gyfer cofnodi adolygiadau gofal, sy'n ystyried addasrwydd cynlluniau personol ac i ba raddau y mae nodau'r bobl yn cael eu cyflawni. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Nid yw'r gwasanaeth bob amser yn amddiffyn ac yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y bobl. Canfuom nad yw'r bobl yn cael gofal a chymorth yn gyson yn unol â’u cynlluniau personol, ac nid yw’r rhain yn cael eu hadolygu na’u diweddaru mewn ffordd ystyrlon. Bu achlysuron pan na wnaeth y gweithwyr gofal ddilyn y canllawiau yng nghynlluniau’r bobl, na'r cyngor a roddwyd gan dimau diogelu a chomisiynu. Er enghraifft, canfuom fod y bobl wedi cael bwydydd anaddas ac nad oedd eu poen a'u diabetes wedi'u monitro'n briodol. Nid oes gan y staff gofal ddealltwriaeth lawn na chlir o anghenion y bobl, gan gynnwys y mesurau diogelwch a roddwyd ar waith mewn ymateb i bryderon diogelu. Mae hyn yn rhoi iechyd a llesiant y bobl mewn perygl, ac felly rydym wedi dyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth. Mae’n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn. Mae'r gwasanaeth wedi gweld trosiant uchel o staff yn ddiweddar, sy'n debygol o fod wedi cyfrannu at y materion hyn. Mae'r rheolwr yn monitro arferion yn agos ac yn darparu hyfforddiant a chymorth ychwanegol. Bydd pob aelod o’r staff gofal bellach yn mynychu'r broses o drosglwyddo sifftiau, fel eu bod yn cael gwybodaeth bwysig a diweddariadau am ofal y bobl.

Yn yr arolygiad diwethaf, canfuom nad oedd y gwasanaeth yn rheoli meddyginiaethau'r bobl yn effeithiol, gan roi eu hiechyd a'u llesiant mewn perygl. Gwnaethon ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn gofyn i'r darparwr weithredu ar unwaith. Yn ystod yr arolygiad hwn, canfuom fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ac mae'r gwasanaeth bellach yn

cydymffurfio yn y maes hwn. Mae meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac ar dymheredd addas. Mae'r gwasanaeth yn cael cyflenwad amserol o feddyginiaethau a chymorth da gan fferyllfa newydd. Mae cofnodion meddyginiaeth yn dangos bod y bobl yn cael y feddyginiaeth a ragnodir iddynt ar yr adeg briodol. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau meddyginiaeth rheolaidd i nodi unrhyw gamgymeriadau gweinyddu neu gofnodi. Mae'n ofynnol i'r staff sy'n gyfrifol am roi meddyginiaethau wirio cofnodion ar ddiwedd eu shifftiau, i sicrhau eu bod wedi rhoi pob meddyginiaeth ac wedi llofnodi ar ei chyfer yn ôl yr angen. Gwelsom nad yw’r staff yn llofnodi'n gyson bod eli a ragnodwyd wedi'i roi. Mae'r rheolwr yn ailgyflwyno siartiau meddyginiaeth amserol ar gyfer hyn, a fydd yn cael eu cynnwys mewn archwiliadau arferol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth wedi methu â chynnal hawl y bobl i breifatrwydd ac urddas yn llawn. Mae hyn oherwydd bod camerâu gwyliadwriaeth wedi'u gosod mewn ardaloedd cymunol heb ymgynghori'n briodol â'r bobl. Nid yw'r defnydd o gamerâu gwyliadwriaeth mewnol yn cael ei adlewyrchu yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ac mae pryderon wedi'u hadrodd i AGC ynghylch sut y gellir cyrchu lluniau teledu cylch cyfyng. Mae gan y gwasanaeth bolisi teledu cylch cyfyng, er nad yw wedi ei rannu gyda'r preswylwyr na'r staff ac nid yw ei egwyddorion wedi eu dilyn. Gwelsom fod y camerâu yn effeithio ar breifatrwydd y bobl ac yn peryglu eu hurddas gan eu bod yn darparu golygfeydd byw o'r bobl wrth iddynt symud ar hyd y coridorau a threulio amser mewn lolfeydd cymunol. Felly, rydym wedi rhoi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Rhoddodd y gwasanaeth y gorau i'w waith monitro mewnol drwy gyfrwng teledu cylch cyfyng yn ystod yr arolygiad ac y mae wedi dechrau ymgynghori â'r preswylwyr, y staff a'r rhanddeiliaid eraill.

Mae gan y gwasanaeth fesurau rheoli heintiau addas ar waith. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn lân ac yn hylan. Mae'r gweithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol i leihau'r risg o groes-heintio. Mae'r staff yn cynnal prawf llif unffordd rheolaidd yn unol â'r canllawiau cyfredol. Mae'r staff hefyd yn sicrhau bod yr ymwelwyr wedi cwblhau prawf llif unffordd negyddol cyn caniatáu iddynt ddod i mewn i'r cartref. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael ac yn hygyrch, ynghyd â biniau gwastraff priodol. Mae cofnodion yn cadarnhau ei bod yn ofynnol i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn perthynas â rheoli heintiau. Mae trefniadau ar waith i adnewyddu ystafelloedd ymolchi lle mae difrod oherwydd traul gyffredinol wedi ei gwneud yn anoddach i'w cadw'n lân. Mae staff cadw tŷ ychwanegol yn cael eu defnyddio i gynnal rhaglen glanhau trylwyr y cartref.

Mae gwelliannau amgylcheddol ar y gweill i wella llety a chyfleusterau'r gwasanaeth. Mae'r gwaith paent yn y coridorau yn cael ei adnewyddu, mae llinell ffôn newydd gyda chysylltiad rhyngrwyd yn cael ei gosod, ac mae rhai rheiddiaduron yn cael eu hadnewyddu. Dywedodd y rheolwr wrthym y bydd ystafelloedd gwely'n cael eu hadnewyddu wrth iddynt ddod yn wag. Gwelsom luniau'n cael eu harddangos y tu allan i'r ystafelloedd er mwyn helpu'r bobl i leoli eu hunain yn eu hamgylchedd. Mae'r gegin a'r ardal fwyta a ddefnyddir gan y preswylwyr sy'n cael eu nyrsio wedi'u hailaddurno a'u dodrefnu i safon dda. Mae cynllun yr ail lolfa-ystafell fwyta hefyd wedi'i newid i annog y bobl i fwyta gyda'i gilydd o amgylch byrddau. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hyn wedi gwella'r lefelau rhyngweithio cymdeithasol yn sylweddol. Mae gan y gwasanaeth swyddog cynnal a chadw newydd sy'n gweithio bob dydd yn ystod yr wythnos ac yn darparu gwasanaeth ar alwad mewn argyfwng. Gwelsom fod offer ymolchi arbenigol wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae gan y rheolwr system ar gyfer monitro bod y gwaith o wirio'r gloch alw, tymheredd y dŵr, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch yn cael ei

gwblhau. Mae cofnodion yn dangos ei bod yn ofynnol i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, diogelwch tân, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a hylendid bwyd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio offeryn dibyniaeth i helpu i bennu lefelau staffio diogel, sy'n cael eu hadolygu'n barhaus gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Mae gweithwyr gofal i'w gweld ym mhob rhan o'r cartref. Maent yn ymateb yn brydlon i glychau galw neu larymau synhwyraidd ac maent ar gael yn gyffredinol i gynorthwyo pobl pan fo angen. Mae'r gwasanaeth wedi gweld trosiant uchel o staff yn ddiweddar. Mae hyn wedi effeithio ar y cymysgedd sgiliau cyffredinol ac ar y llwythi gwaith dyddiol oherwydd yr amser ychwanegol y mae ei angen i gynorthwyo a hyfforddi'r staff newydd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod weithiau'n cael trafferth gyda'u llwyth gwaith pan fo staff yn absennol, er bod pethau wedi gwella o ganlyniad i'r cynnydd diweddar mewn lefelau staffio dyddiol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i recriwtio staff nyrsio oherwydd y prinder, sydd wedi effeithio ar allu'r rheolwr a'r arweinydd clinigol i godi safonau.

Mae'r rheolwr newydd wedi datblygu cydberthynas dda gyda'r staff ac mae'n gweithio i wella safonau arfer cyffredinol. Gwelsom fod gan y gwasanaeth systemau sicrhau ansawdd ar waith i helpu i ysgogi gwelliant. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau ffurfiol gan yr unigolyn cyfrifol, adolygiadau ansawdd gofal bob chwe mis ac adroddiadau rheoli misol sy'n cynnwys adolygiad o gofnodion, adnoddau, cwynion a digwyddiadau eraill. Nodwyd gennym nad yw'r cofnodion sy'n ymwneud ag ymweliadau ffurfiol yr unigolyn cyfrifol na'r adroddiad o'r adolygiad diweddaraf o ansawdd gofal yn cyfeirio at adborth a gasglwyd gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, na'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Cytunodd yr unigolyn cyfrifol i fynd i'r afael â hyn mewn adroddiadau yn y dyfodol. Mae gweledigaeth y gwasanaeth wedi'i nodi yn ei ddatganiad o ddiben a'i ganllaw ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'r dogfennau hyn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth anghywir nad yw'n gyfredol, y mae angen ei diweddaru.

Mae'r staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae cofnodion yn cadarnhau bod y gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau gofynnol cyn cyflogi a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Disgrifiodd y gweithwyr gofal eu cyfnod sefydlu a hyfforddiant fel *"da"* a dywedon eu bod yn cael unrhyw hyfforddiant ychwanegol y maent yn gofyn amdano. Mae cofnodion yn dangos bod y staff yn cwblhau ystod o hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys codi a chario, diogelu, ymwybyddiaeth o ddementia, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth amddifadu o Ryddid. Mae angen hyfforddiant pellach ar staff mewn meysydd fel maethiant, cyflwr y croen, cynllunio gofal electronig ac asesu risg. Mae'r rheolwr yn darparu hyfforddiant parhaus i'r staff, yn unigol os oes angen. Mae cyrsiau hyfforddi a ddarperir gan y bwrdd iechyd lleol hefyd wedi'u trefnu.

Mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm ac maent yn frwd dros wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at y rheolwyr neu'r uwch-staff, a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddent yn ymdrin ag unrhyw faterion. Er bod y staff yn cael cymorth a chyfarwyddyd anffurfiol, nid ydynt yn cael eu

goruchwylio a'u gwerthuso'n ffurfiol a chyson mor aml ag sy'n ofynnol. Gwelsom hefyd nad yw'r unigolyn cyfrifol bob amser wedi gofyn am farn y rheolwr am y ffordd y mae'r cartref yn cael ei redeg na'i hystyried. Mae cofnodion yn cadarnhau nad yw'r rheolwr wedi derbyn goruchwyliaeth ffurfiol na lefel briodol o hyfforddiant ers cael ei benodi. Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol oruchwylio rheolaeth y gwasanaeth a sicrhau bod adnoddau ar gael i'r cartref redeg yn esmwyth. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol sicrwydd i ni fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r holl faterion cydymffurfio a nodir yn yr adroddiad hwn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Gosododd y gwasanaeth gamerâu mewn ardaloedd cymunol heb ymgynghori'n briodol â'r bobl, gan beryglu eu preifatrwydd a'u hurddas. Dylai'r gwasanaeth annog y bobl i leisio eu barn am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. | Newydd |
| 43 | Nid yw polisi teledu cylch cyfyng y gwasanaeth wedi ei gadw. Gosododd y gwasanaeth gamerâu mewn ardaloedd cymunol heb ymgynghori â'r bobl. | Newydd |
| 21 | Nid yw'r gofal a’r cymorth yn cael eu darparu yn unol â chynlluniau personol y bobl. Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y bobl. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan  fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Nid oes tystiolaeth bod cynlluniau personol yn cael eu hadolygu sy'n ystyried i ba raddau y mae canlyniadau personol y bobl yn cael eu cyflawni ac sy'n cynnwys yr unigolyn, ei gynrychiolydd (os yw'n berthnasol) a'r awdurdod lleoli. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael goruchwyliaeth ffurfiol bob tri mis ac arfarniadau blynyddol. | Newydd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi gwneud trefniadau addas i sicrhau bod y rheolwr yn cael yr oruchwyliaeth a'r hyfforddiant gofynnol i'w gynorthwyo yn ei rôl. Mae heriau mewn perthynas â recriwtio staff nyrsio wedi effeithio ar allu'r tîm rheoli i roi systemau ar waith yn effeithiol sy'n cefnogi darparu gwasanaeth o ansawdd da sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/07/2022